Dydd Sul 10/10/21	**9:45yb Gwasanaeth teulu**	**5:00yh Hwyrol Weddi ar-lein**
Arwain	Jamie	Mark
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Rheinallt	Richard Jones
Darlleniadau	*Amos 5: 6,7,10-15; Actau 22: 22-29*	*Josua 5: 13-6:20; Mathew 11: 20-30*
Gweddïau	Michael	Marian Jones
Lluniaeth	Menna a Rheinallt	
Pregethu	Jamie	Mark

Dydd Sul 17/10/21	**9:45yb Mawl y Bore**	**5:00yh Hwyrol Weddi ar-lein**
Arwain	Mark	Mark
Blodau		
Cyfeilio	Aeron	
Darllen	Elena	Mairwen
Darlleniadau	*Eseia 53: 4-12; Actau 22: 30- 23:11*	*Josua 14: 6-14 ; Mathew 12: 1-21*
Gweddïau	Non	Mair
Lluniaeth	Pedr a Non	
Pregethu	Mark	Mark

24/10/21	9:45yb	Gwasanaeth Diolchgarwch gyda Cynan Llwyd
14/11/21	9:00yb	Brecwast i bawb
29/11/21	7:00yh	Cyfarfod Pwyllgor y AWL
6/12/21	7:00yh	Cyfarfod Pwyllgor yr Eglwys
25/12/21	9:45yb	Cymun y Nadolig

Gweinidog:

Parch. Mark Ansell, Fenton, Maes y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2HL. 01970 617184 eglwysfair@gmail.com (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)

Gweinidogion eraill:

Parch. Cei Rees, 01970 617184 cei@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)
Parch. Liz Rees, 01970 617184 liz@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Sadwrn)
Parch. Becky Evans, 01970 617184 becky@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Gwener)
Parch. Robert Wilkinson, 01970 617184 robert@stmikes.net (Diwrnod bant arferol: Dydd Iau)

Eglwys y Santes Fair

y Gair
y Groes
y Gymraeg

10fed o Hydref 2021

9:45yb **Gwasanaeth Teulu**

5:00yh **Hwyrol Weddi** ar-lein

CROESO

Croeso i Eglwys y Santes Fair!

Diolch am ddod heddiw. Gobeithio eich bod chi'n gallu aros i gael paned gyda ni ar ddiwedd y gwasanaeth.

Bydd yr Ysgol Sul i blant a phobl ifanc yn ailddechrau cyn bo hir.

Mae system dolen anwytho yn yr eglwys. Trowch eich teclyn clyw i'r gosodiad pwrpasol.

Ein Nod

Yn Eglwys y Santes Fair...
rydym yn **creu cymuned** sy'n **caru'n cymdeithas** er mwyn **cyflwyno Crist**.

Gweddi Eglwys y Santes Fair

Arglwydd Iesu,
addewaist adeiladu dy eglwys.
Felly, os gweli di fod yn dda, adeilada dy eglwys yn ein plith.
Cymorth ni i ddyfnhau ein perthynas â thi, a chynydda'r nifer o Gristnogion newydd sy'n addoli yma trwy gydol y flwyddyn, er mwyn dy anrhydedd yn yr ardal weinidogaeth hon. **Amen**.

www.eglwysfair.cymru

Eglwys y Santes Fair, Aberystwyth @eglwysfair

Newyddion Teulu'r Eglwys

Cyfrannu

Er nad ydyn ni'n gallu cynnal casgliad ffurfiol ystod ein gwasanaethau, mae basged yng nghefn yr Eglwys ar gyfer eich cyfraniadau tuag at waith yr eglwys. Os ydych chi am roi cyfraniad ar-lein, ewch i'n gwefan - www.eglwysfair.cymru

Diolchgarwch

Rydym yn croesawu Cynan Llwyd yn ôl atom ar gyfer ein gwasanaeth diolchgarwch ddydd Sul 24ain o Hydref am 9:45yb. Cynhelir gwasanaeth arbennig ar-lein yn y nos hefyd.

Gwasanaethau ar-lein

Mae gwasanaeth ar-lein am 5:00yh bob nos Sul drwy raglen Zoom. Bydd angen rhif y cyfarfod – sef 964 3320 1 – a'r cyfrinair, sef 1588. Gallwch ymuno drwy ffôn hefyd: Ffoniwch - 0203 051 2874 ac wedyn rhowch rhif y cyfarfod, wedyn yr allwedd #, wedyn 1588 wedyn # eto.

Amos 5: 6,7, 10-15

6 Ceisiwch yr ARGLWYDD, a byddwch fyw - rhag
iddo ruthro fel tân drwy dŷ Joseff a'i ddifa, heb
neb i'w ddiffodd ym Methel—
7 chwi sy'n troi barn yn wermod, ac yn taflu
cyfiawnder i'r llawr.
10 Y maent yn casáu'r un a wna farn yn y porth,
ac yn ffieiddio'r sawl a lefara'n onest.
11 Felly, am ichwi sathru'r tlawd, a chymryd oddi
arno ei gyfran gwenith - er ichwi godi tai o
gerrig nadd, ni chewch fyw ynddynt;
er ichwi blannu gwinllannoedd hyfryd, ni
chewch yfed eu gwin.
12 Canys gwn mor niferus yw'ch troseddau ac
mor fawr yw'ch pechodau - chwi, sy'n
gorthrymu'r cyfiawn, yn derbyn llwgrwobr, ac
yn troi ymaith y tlawd yn y porth.
13 Felly tawed y doeth ar y fath amser, canys
amser drwg ydyw.
14 Ceisiwch ddaioni, ac nid drygioni, fel y
byddwch fyw ac y bydd yr ARGLWYDD, Duw'r
Lluoedd, gyda chwi, fel yr ydych yn honni ei fod.
15 Casewch ddrygioni, carwch ddaioni, gofalwch
am farn yn y porth; efallai y trugarha'r
ARGLWYDD, Duw'r Lluoedd, wrth weddill
Joseff.

Actau 22: 22-29

Paul a'r Capten Rhufeinig

22 Yr oeddent wedi gwrando arno hyd at y
gair hwn, ond yna dechreusant weiddi,
"Ymaith ag ef oddi ar y ddaear! Y mae'n
warth fod y fath ddyn yn cael byw." 23 Fel yr
oeddent yn gweiddi ac yn ysgwyd eu dillad
ac yn taflu llwch i'r awyr, 24 gorchmynnodd y
capten ei ddwyn ef i mewn i'r pencadlys, a'i
holi trwy ei chwipio, er mwyn cael gwybod
pam yr oeddent yn bloeddio felly yn ei
erbyn. 25 Ond pan glymwyd ef i'w fflangellu,
dywedodd Paul wrth y canwriad oedd yn
sefyll gerllaw, "A oes gennych hawl i
fflangellu dinesydd Rhufeinig, a hynny heb
farnu ei achos?" 26 Pan glywodd y canwriad
hyn, aeth at y capten, a rhoi adroddiad
iddo, gan ddweud, "Beth yr wyt ti am ei
wneud? Y mae'r dyn yma yn ddinesydd
Rhufeinig." 27 Daeth y capten ato, ac
meddai, "Dywed i mi, a wyt ti'n ddinesydd
Rhufeinig?" "Ydwyf," meddai yntau.
28 Atebodd y capten, "Mi delais i swm mawr
i gael y ddinasyddiaeth hon." Ond
dywedodd Paul, "Cefais i fy ngeni iddi." 29 Ar
hyn, ciliodd y rhai oedd ar fin ei holi oddi
wrtho. Daeth ofn ar y capten hefyd pan
ddeallodd mai dinesydd Rhufeinig ydoedd,
ac yntau wedi ei rwymo ef.